# Newyddion Bethlehem

Gwaelod-y-garth

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Tymor yr Hydref 2106





Cofiwch ddod i

# Blas Bethlehem

**Pnawn Sul**
**Tachwedd 27 2016**
**5.00**

Bêc Off Bethlehem a dathlu Delwyn Siôn yn dod yn Arweinydd ar yr Eglwys

Noson anffurfiol a chymdeithasol yn cynnwys tasgau coginio, addurno, llinell goll ayb:

(hyn yn ogystal â'r oedfa arferol ac Ysgol Sul yn y bore am 10.30)

MANYLION LLAWN
AM Y TASGAU
AR DUDALEN 6

*Dechreuwch baratoi!*

# Delwyn a'i ychydig eiriau!

Pan ofynnodd y Diaconiaid imi sôn am fy ngweledigaeth i'r Capel mewn chydig eiriau, mae'n rhaid i mi gyfadde ro'wn i'n becso, a hynny am sawl reswm. Yn gyntaf, dwi'n cael trafferth dweud dim mewn "chydig" eiriau!!! ac yn ail; y gair Gweledigaeth 'na! Gair i godi arswyd ar y mwya' profiadol heb sôn am grwt ifanc fel fi. Ond wrth feddwl am y dasg sylweddolais nad oedd mor anodd ag y tybiais, gan taw "Parhad" yw nod cychwynnol f'arweiniad. Fel y soniais yn yr Oedfa Ardal yn ddiweddar, mae'n rhaid symud 'mlaen i greu Eglwys Newydd yn ein cymdeithas aml-ffydd, aml-ddiwylliant, ond bydd unrhyw eglwys newydd yn parhau a gwerthoedd yr Hen Gapel.

Fe roddodd un o f'arwyr - Nelson Mandela, enw ar gymdeithas aml ffydd/iaith/diwylliant De Affrica, fe'i galwodd yn Genedl yr Enfys. Beth am i ni ym Methlehem anelu at fod yn Gapel yr Enfys, yn agored i feddylfryd a gwerthoedd a gwirioneddau credoau eraill, yn gyfoes ein hagweddau at Foderniaeth a Gwyddoniaeth, ond gwneud hynny heb ddibrisio'n Cristnogaeth ni, y ffydd sydd wedi'n cynnal a'n cyfoethogi ers cyhyd.

Ry'n ni'n Gapel cyfoethog o ran doniau ac ymroddiad, ac mi wn y bydd parhad i'n gweithgaredd, cefnogaeth i'n hoedfaon ardal, cefnogaeth i'n helusennau a'n Ysgol Sul, ac awn ymlaen i ail afael yn ein cefnogaeth i Blant y 'Plan International', ac i gryfhau ein hymwybyddiaeth o "deulu" Bethlehem.

Wel! Wedi'r "chydig" eiriau yna (mi wnes i'ch rybuddio chi! ) ga'i hefyd ddiolch i chi gyd am eich ffydd ynof, a'ch cynigion o gymorth i mi, wrth i mi ddechrau ar y swydd newydd 'ma. Dwi'n addo, fe wnaf fy ngorau, a gyda'n gilydd, awn ymlaen.

**Delwyn**

Neges pwysig Y Ddrama Nadolig

## GADEWCH EICH DILLAD GORAU GARTREF

Cynhelir drama Nadolig Bethlehem eleni nos Sul 18fed o Ragfyr am 5 o'r gloch yr hwyr gyda pharti Nadolig y plant i ddilyn. A fyddech chi cystal â pheidio gwisgo'ch siwmperi Nadolig neu eich dillad gorau ar y noson ond yn hytrach gwisgo'n 'dlawd' os gwelwch yn dda? Er nad wyf fel arfer yn datgelu'r thema o flaen llaw, rwy'n mynd i wneud eleni! 'Ffoaduriaid' yw testun y ddrama, a hoffwn petai pawb yn gwisgo hen ddillad sydd wedi gweld eu dyddiau gorau er mwyn i ni gyd fynd i mewn i ysbryd y ddrama a bod yn dystion i'r hyn sy'n digwydd.

**Heulwen Jones**

# Suliau – o nawr hyd ddiwedd Ionawr 2017

**Tachwedd**

**20** - Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
**27** - Y Parchg. Gethin Rhys 10.30
**5.00 y pnawn** – Blas Bethlehem
Bêc off a dathlu Delwyn Sion yn dod yn arweinydd ar Fethlehem

**Rhagfyr**

**4** - Ymarfer Plant yn y bore
**5.00 y pnawn** Delwyn Sion (Cymun)
**11** - Ymweld â Chartref Henoed (Willowbrook House)
[Ymarfer drama Nadolig i'r plant]
.....**5.00 y pnawn** Naw Llith a Charol
**18** - **5.00 y pnawn**: Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
Te parti yn y Festri ac ymwelydd arbennig.
**25** - Gwasanaeth Dydd Nadolig. **10.00 y bore**

**Ionawr 2017**

**1** - Delwyn Sion
Oedfa Gymun
**7** - **10.30**: Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched
**4.30**: Gwasanaeth Plygain
**15** - Y Parchg. Aled Gwyn
**22** - Y Parchg. Robert Owen Griffiths
**29** - Oedfa Ddathlu William Williams, Pantycelyn

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk



Sul Diolchgarwch y Plant – Y cast llawn! (rhagor o luniau'r unigolion ar dudalen 5)

**Sioned Wyn** **Y daith i ardal Mizoram**

# Ugain mil mewn pafiliwn!

Ym mis Mawrth aeth criw o gôr CF1 mas i ardal Mizoram yn India i ganu mewn cynhadledd Gristnogol. Roedd yn brofiad gwbl anhygoel sy'n anodd ei grynhoi mewn geiriau, ond dyna wnaethom ni mewn gwasanaeth yn y Gwaelod ar y nawfed o Hydref.



Prif bwrpas y daith oedd i ganu yng Nghynhadledd y KTP, ac felly ar ôl treulio noson yn Kolkata, fe wnaethom ni hedfan i Aizawl yn nhalaith Mizoram, cyn y siwrne fws hiraf erioed - 13 awr i deithio 185km! Roedd y ffyrdd yn gul a miloedd o bobl yn gwneud yr un siwrne â ni, oedd yn golygu ciws diri o fysus a weithiau dim lle i ddau gerbyd yn mynd i gyfeiriadau gwahanol - ac felly roedd 'na lot o 'fanwfro' gofalus yn digwydd.

Fe wnaethom ni ganu yn nifer o wasanaethau a sesiynau’r gynhadledd - oedd yn dod a miloedd o Gristnogion y dalaith at ei gilydd. Roedd y profiad o fod yn rhan o wasanaeth oedd â 20,000 yn y pafiliwn (heb ochrau - dim ond to), a bron i 20,000 arall yn sefyll tu allan yn fythgofiadwy ac yn un sy'n anodd iawn ei ddisgrifio.

Roedd y cyfeillgarwch a'r croeso gawsom ni yn hynod. Aeth cenhadon o Gymru allan i ledaenu'r ysbryd glan yn ystod y 19eg a'r 20fed Ganrif, ac oherwydd hyn mae'r cyswllt gyda Chymru yn bwysig iawn i'r Mizos. Bydd gyda ni oll gyfeillion ym Mizoram am oes.

Yn ystod y gwasanaeth yng Ngwaelod-y-garth fe wnaethom ni rannu lluniau a phrofiadau, a chanu cân neu ddwy. Roedd dod nol at ein gilydd i gyd-ganu a rhannu'n profiadau yn ffordd hyfryd o atgoffa'n gilydd cymaint wnaethom ni fwynhau a gwerthfawrogi'r profiadau unigryw gawsom ni ym Mizoram.






Rhai o aelodau CF1, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, yn crynhoi rhai o'u profiadau yn ystod  gwasanaeth y Methlehem.

# Gweithgareddau Newyddion



Dau o siaradwyr diweddar Y Drws Agored, ar nos Iau, lle maen nhw wedi bod yn trafod gwahanol enwadau a chrefyddau – **uchod**, Y Tad Deiniol o'r Eglwys Uniongred ac, **ar y dde**, y Parchedig Arnallt Morgan, o'r Eglwys Apostolaidd.





(Dde) Mae e wedi tyfu sbel ers i ni dderbyn y llun hwn o ŵyr bach diweddaraf Marian a John Ifans, Radur. Dyma Sion, aned yn nechrau Awst i Sara a Rhodri Gibson, Penrhyn-coch. (*Mwy am fabis newydd ar dudalen 6*)

(Isod) Un arall o'r ardal honno, Ann Williams, fu'n diddanu yn y Cwrdd Merched.





Ymweliad aelodau'r Cwrdd Merched â'r Bathdy yn Llantrisant. Uchod, gwelwch y fintai fu draw yn cael "Y Profiad" (sydd wedi ei hysbysebu ar sawl cylchfan yn yr ardal). Yma mae'r darnau punt crwn olaf yn cael eu bathu – a bydd darn punt newydd ac iddo 12 ochr yn cael ei gynhyrchu'r flwyddyn nesaf. Cawn hanes llawn am weithgareddau'r Cwrdd Merched yn ein rhifyn nesaf.

Cofiwch am ein gwefan newydd: [www.bethlehem.cymru](http://www.bethlehem.cymru)

# Gweithgareddau Newyddion






**Sul y Diolch 2016**






Osian Ffion Ifan Mabli Nel Garmon

(**Uchod ac isod**) Aelodau'r Ysgol Sul, dan arweiniad Heulwen, a gyda help Avril a Rhodri i ddewis a philio afalau, fu'n cynnal y Gwasanaeth Diolchgarwch eleni.

(**Ar y dde**) Pan fydd cyhoeddiad annisgwyl am baned o de wedi'r oedfa, gallwch fod yn siŵr o syrpreis ym Methlehem. Ymddangosodd cacen un bore Sul i ddathlu penblwydd R Alun yn 80 mlwydd oed (yn lliw'r Swans, wrth reswm!)






**Bedydd Alaw Beca a Cai Aneirin**

Ar fore Sul Hydref 30ain, roedd Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans yn bedyddio dau fach – un merch ac un bachgen. Dyma nhw:

**Ar y chwith**, Alaw Beca Harding, merch Gwion a Rhian.

**Ar y dde**, dacw Cai Aneirin, mab Llion a Lisa.

**Isod**, gwelir cynrychiolaeth o deuluoedd y ddwy aelwyd, oedd yn y gynulleidfa.






## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:

**Heulwen Jones**, Yr Eglwys Newydd, ar golli ei brawd.

**Joy Glyn**, Pentyrch, ar golli ei chwaer.

**Carol Davies**, Pentyrch, ar golli ei mam.

**Bethan Tame**, Gwaelod-y-garth, a **Nerys Williams**, Radur, ar golli modryb.

**Cath Edwards**, Llandaf, ar golli cyfnither.

Ac yng nghanol Medi, bu farw un o'n cyn-aelodau, **Mefus Eirwyn-Evans,** Llanisien.

**Croesawu babis newydd** - Cyrhaeddodd y canlynol:
**Anni Gwen**, merch i Aled a Lisa, a wyres arall i Rhian Huws.
**Jac Dylan**, mab i Robert a Simela, ŵyr i Eirlys a Steve Lamb.

**Dymunwn adferiad buan** i Marian Jones, Creigiau, a da gweld Nia Jones ac Avril Pickard yn ôl yn ein plith ar ôl gwaeledd.

**Llongyfarchiadau** i Martin Huws, Ffynnon Taf, ar ennill unwaith eto – y tro hwn, coron Eisteddfod Llambed.

**A diolch** i Gwawr Owen ac aelodau Bethlehem oedd yn rhan o'i chôr yn y perfformiad ingol ac ysgytwol o waith Karl Jenkins a Mererid Hopwood i gofio Aberfan.

# Blas Bethlehem

(Sbort a Sbri'n y Festri!)

## 5 o'r gloch ar Dachwedd y 27ain

**CYN Y NOSON**, bydd angen i bob ardal (dan anogaeth gref y Diaconiaid ardal) baratoi 2 beth o'r rhestr isod:

**12 o 'fins peis'**

**neu**

**12 o Fisgedi Nadoligaidd**

**neu**

**12 'Cup Cake' Nadoligaidd**

**neu**

**Boncyff Siocled**

(Bydd y rhain yn cael eu beirniadu ar y Noson gan Terry Berry a Pauline Hollywood, ac yna'n mynd ar werth i godi arian at ein helusen.)

**AR Y NOSON:** bydd 5 bwrdd/bord wedi eu gosod yn y Festri, un ford i bob ardal, a digon o ddefnyddiau ar y fordydd i Addurno Cacen, ac i greu Addurn Nadolig. Bydd gan bawb chwarter awr i wneud y ddwy dasg!

**HEFYD! Cystadleuaeth i'r plant** - creu Cadwyn Nadolig.

I'r beirdd yn ein plith - Cystadleuaeth gorffen y Llinell goll:

*Mae rhywun yn rhywle byth beunydd*
*Yn awyddus i ddewis arweinydd*
*A'r si ddiweddara'*
*I'n cyrraedd ni yma*

..............................................................................................

Cyfle i ennill Hampyr Nadolig ar y Noson, a chymdeithasu wrth godi arian i Ysbyty Felindre.

**Dewch yn llu i Ddigwyddiad Elusennol Cynta'r Tymor!**

Gwnewch hi'n Noson i'w Chofio!